Cyngor
Ysgolion Sul

**Cyngor Ysgolion Sul**
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH

**Ffôn** 01766 819120
**Ebost** aled@ysgolsul.com

CYHOEDDIADAU'R
GAIR

## I'w gyflwyno i sylw aelodau eich eglwys / YSGOL SUL

# Llythyr ac Apêl Arbennig 2019

Annwyl gyfeillion,

Pleser eleni eto yw amgáu gwybodaeth am weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul i'ch sylw. O ran gwerslyfrau byddwn yn parhau i ddefnyddio **cyfres werslyfrau Stori Duw**, ac mae mwy o adnoddau ar gael ar y we am ddim erbyn hyn, tra bydd yr oedolion yn dilyn llyfr **Geiriau Ffydd 3** gan John Treharne, sydd yn mynd â ni ar daith trwy'r Hen Destament. Erbyn hyn mae gennym llawer iawn mwy o adnoddau ar y we, ac mae modd prynu a lawr lwytho dros 150 o ffilmiau Beiblaidd, dros 50 o werslyfrau a dros 50 o lyfrau defosiynol mewn cyfrwng digidol. Ewch i ysgolsul.com a chliciwch ar Siop i weld yr holl arlwy.

Un datblygiad diweddar yn ein hanes yw ein bod wrthi yn **sefydlu 2 wefan newydd sbon**, sef **gair.cymru** a fydd yn cynnwys deunyddiau fel gwersi ysgol Sul, ayyb i'w lawr lwytho am ddim a **cristnogaeth.cymru** a fydd yn ceisio hybu a hyrwyddo gwybodaeth am unrhywbeth a phopeth yn ymwneud â'r ffydd yng Nghymru. Hefyd rydym wedi etifeddu dwy wefan arall yn ddiweddar, sef **beibl.net** a **gobaith.cymru**. Roedd rhain yn wefannau wedi eu creu a'u datblygu gan elusen Gobaith i Gymru, ond wrth i'r elusen honno ddirwyn ei waith i ben trosglwyddwyd yr asedau i ofal Cyngor Ysgolion Sul.

Cofiwch am ein llyfrau gwasanaeth Nadolig, gan gynnwys cyfrol ddefosiynol Defosiwn Gŵyl y Nadolig Mae yna ddewis o gomig Nadoligaidd a nifer o lyfrau rhodd Nadolig ar gyfer plant hefyd ar gael. Mae gennym 10 cynllun cerdyn Nadolig hefyd ar gael mewn stoc.

Cofiwch hefyd fy mod ar gael i gynghori ar waith yr ysgol Sul, ac yn arbennig ar yr adnoddau cyfoes sydd ar gael at eich gwasanaeth. Gofynnwn hefyd am eich gweddïau chi dros y gwaith. Gwahoddwn ni chi fel eglwys i neilltuo rhan o wasanaeth yn ystod cyfnod yr Adfent i roi sylw i 'Sul Addysg', – bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fel eglwys i ddiolch am gyfraniad addysg Gristnogol i fywydau ein hieuenctid, i ystyried ei werth heddiw, ac i weddïo dros bawb sy'n cyflwyno a derbyn yr addysg hon. Mae deunydd ar ein gwefan ar gyfer cynnal oedfa ar y Sul hwn.

Dyma'r Sul hefyd y mae Cyngor Ysgolion Sul yn gwneud ei **apêl ariannol blynyddol i'r eglwysi**. Diolchwn am bob cyfraniad at y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf – mae'r rhoddion yma erbyn hyn yn gwbl allweddol i ddatblygiad ein gwaith. Apeliwn eleni eto am eich cefnogaeth haelionus, gan yrru unrhyw gyfraniadau ataf (yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul) i'r cyfeiriad uchod. **Y mae ein strategaeth dros y blynyddoedd nesaf yn cynnwys datblygu gwefannau lle bydd llawer iawn o adnoddau ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Mae hynny yn golygu llai o incwm i ni fel elusen, a chost wrth gwrs i ddatblygu'r elfen bwysig yma o'n gwaith.**

Diolch am bob cefnogaeth at waith yr Ysgol Sul – cofiwch gysylltu os am fwy o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'r uchod.

Yn gywir,

*D. Aled Davies* **Aled Davies** Cyfarwyddwr

........................................................................................................................................................

Amgaeaf siec o £................ fel cyfraniad o Eglwys ................................................................ am 2019.

Enw: ........................................................................................ Ffôn: ........................................................................

Eglwys: .................................................................................. Ebost: ......................................................................

Cyfeiriad: ........................................................................................................................................................

........................................................................................................................ Côd Post ..........................................


**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

**Ymddiriedolwyr:** Parchedigion Dyfrig Rees, Judith Morris, Dyfrig Lloyd, Jennie Hurd, Mr. Rheinallt Thomas a swyddogion cyfredol y Cyngor.
**Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity:** Rhif/No: 525766
**Swyddfa Gofrestredig/Registered Office:** Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.


# Llyfrau Cristnogol newydd ar gyfer oedolion

Ar gyfer 2019 cyhoeddir nifer o lyfrau i oedolion sy'n amrywiaeth o lyfrau gwasanaethau, myfyrdodau a ffeithiol. Maent i gyd ar gael o'ch **siop lyfrau leol** neu ar y we o **www.gwales.com**. Mae nifer ohonynt ar gael fel eLyfrau PDF i'w prynu a'u lawrlwytho o **www.ysgolsul.com**


**Sut Mae Bod yn Weinidog Eglwys?**
Testun: Nigel G. Wright
Pris: £10.99
Canllawiau ymarferol a seiliau Beiblaidd 'y weinidogaeth Gristnogol' i rai sy'n ystyried galwad, i fyfyrwyr, gweinidogion presennol a rhai sydd wedi ymddeol.





**Pererin Wyf**
Testun: Huw John Hughes
Pris: £12.99
Cyfrol o wasanaethau ar gyfer addoliad cyhoeddus sy'n ein herio i ddilyn a gwasanaethu Crist heddiw.





**Geiriau Ffydd 3**
Testun: John Treharne,
Pris: £9.99
Cyfrol o fyfyrdodau beiblaidd gan John Treharne yn canolbwyntio ar 100 o adnodau mwyaf poblogaidd ac adnabyddus yr Hen Destament.





**O Eden i Baradwys**
Testun: D. Hugh Matthews
Pris: £9.99
Dyma gasgliad o dros 100 o fyfyrdodau sydd yn ein tywys ar daith drwy'r Beibl mewn myfyrdod a gweddi. Eu bwriad yw cyflwyno neges y Ffydd Gristnogol, a hynny mewn modd syml a dealladwy. Gellir hefyd eu defnyddio gerbron cynulleidfa yn absenoldeb pregethwr.





**Tynged Cenedl - Cenedlaetholdeb Gristnogol R. Tudur Jones**
Awdur: Rhys Llwyd
Pris: £9.99 yr un, 148tt.
Astudiaeth o genedlaetholdeb Gristnogol y diweddar R. Tudur Jones. Bwriad y gyfrol hon yw cynorthwyo Cristnogion heddiw i graffu ar eu syniadau gwleidyddol o safbwynt diwinyddiaeth Gristnogol.





**Y Tir Ysgythrog**
Awdur: Desmond Davies
Pris: £9.99.
Deunaw o bregethau cyflawn, awgrymiadau o ddarlleniadau Beiblaidd, gweddi gysylltiol a rhestrau o emynau priodol. .





**Yr Alwad**
Aled Davies
a Beti Wyn James (gol.)
Pris: £8.99
Cyfrol o fywgraffiadau 18 o weinidogion Cymru, yn olrhain hanes eu galwad i'r weinidogaeth a sut mae hynny wedi ei wireddu dros amser.



**Camau Cyntaf trwy Brofedigaeth**
Testun: Sue Mayfield cyf. Gwilym Wyn Roberts
Pris: £4.99
O'r sioc o farwolaeth rhywun agos hyd at wynebu bywyd yn ymarferol wedi hynny, mae *Camau Cyntaf trwy Brofedigaeth* yn rhoi arweiniad gwerthfawr trwy'r broses o alaru.




**Gair Duw Ar Waith**
Testun: Denzil I. John
Pris: £6.99
Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Y Beibl Ar... Roi a Chyfrannu**
Testun: Arwel E Jones
Pris: £3.99
Llyfr sy'n cychwyn trafodaeth ar bwnc sydd, fel arfer, yn cael ei osgoi ymysg Cristnogion. Mae rhoi at waith yr Arglwydd yn fater ymarferol ac ysbrydol gan fod ein defnydd o arian a'n parodrwydd i roi yn dweud cyfrolau am gyflwr ein calonnau a'n eneidiau.





**Cracr 'Dolig**
Awdur: Huw John Hughes
Pris: £8.99.
Llyfr sydd yma yn llawn gwybodaeth am y Nadolig. Mae'n llawn hanesion difyr am draddodiadau'r Nadolig ar draws y canrifoedd. Yr arferion a'r defodau, eu hanes a'u tarddiad – a chwis ac ambell jôc yma a thraw.





# Adnoddau newydd at waith plant


**Newid Bywydau**
Awdur: Mark Griffiths
Pris: £10
Mae Newid Bywydau yn trafod y cyfan fyddech am ei wybod am weithio gyda phlant a theuluoedd – sut, pryd, ble a pham? Fe'n cynorthwya i ddatblygu gweledigaeth ac i lunio strategaeth ar gyfer gweinidogaethu i blant a theuluoedd tu fewn a thu allan i strwythurau ein heglwysi, gan drafod materion fel cadw cofnodion, ymweld â chartrefi, trefnu amserlen a chynllun gwaith, pwysigrwydd gwarchod a diogelu, templedi creu gwersi bywiog a cadw diddordeb y plant. Dyma ganllaw allweddol ac ymarferol i bawb sy'n gweithio gyda phlant.













**Taflenni Gwaith Beiblaidd: Y Casgliad Cyflawn** £12.99
Casgliad eang o daflenni gwaith Beiblaidd sy'n barod i'w defnyddio. Mae pob taflen wedi'i seilio ar stori o'r Hen Destament neu'r Testament Newydd, ac mae yna lun i'w liwio, adnod i'w dysgu, amrywiol bosau a chwileiriau.

**Taflenni Cwis Beiblaidd**
**Taflenni Gwaith Beiblaidd i Blant**
**Taflenni Gwaith Beiblaidd i Blant Bach** £9.99 yr un

Tri casgliad gwerthfawr o daflenni gwaith Beiblaidd i blant, y gellir eu ffotocopïo ar gyfer y dosbarth, boed mewn ysgol neu Ysgol Sul. Dewiswyd 52 o storïau mwyaf cyfarwydd y Beibl, gan gynnwys 30 o'r Hen Destament a 22 o'r Testament Newydd.

# Cyfarfodydd cyflwyno a gwobrwyo Medalau Gee 2019

Gobrwywyd 37 o fedalau Thomas a Suzannah Gee eleni, a hynny mewn dwy seremoni, a gynhaliwyd ym Merea Newydd, Bangor a Capel y Priordy, Caerfyrddin yn ystod mis Medi. Cyflwynwyd 31 o fedalau ym Mangor a 5 medal yng Nghaerfyrddin ac 1 yn Llundain. Llongyfarchiadau gwresog i bawb a diolch am eu ffyddlondeb i waith yr Ysgol Sul yng Nghymru.






# Medalau Gee 2020: de a gogledd

Cyflwynir Medalau Gee yn y Gogledd ar Ddydd Sadwrn, **5 Medi 2020**
yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn

Cyflwynir Medalau Gee yn y De ar Ddydd Sadwrn, **12 Medi 2020**
yn Eglwys Ebeneser, Rhydaman





Disgwyliwn ymlaen i groesawu Dr Isoline Grenaulgh a Dr Dorothy Gee Williams o deulu'r diweddar Thomas a Suzannah Gee.

Rydym ar hyn o bryd yn croesawu enwebiadau am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei heglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r Ysgol Sul (mae ein diffiniad o Ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaid/seiadau trafod canol wythnos).

**Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o wefan www.ysgolsul.com**

Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer 2020 fod wedi ein cyrraedd ni **erbyn Mehefin 30** fan hwyraf. Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus i ddiolch i athrawon Ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuenctid am oes o wasanaeth, ac i gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes na rywrai yn eich Ysgolion Sul chi sy'n disgyn i'r categori hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!

# Sôn am Iesu




**Cwrs newydd i'n helpu i rannu ein ffydd yn hyderus a naturiol gydag eraill. Deunydd ar gael o wefan www.hopetogether.org.uk**

Sgyrsiau gyda Christnogion yw un o'r dylanwadau pwysicaf wrth ddod â phobl i ffydd. Bydd y cwrs hwn yn eich ysbrydoli i rannu eich ffydd a bydd yn rhoi awgrymiadau ymarferol i chi i'ch helpu chi i fod yn naturiol ac yn berthnasol wrth i chi siarad am Iesu gyda'r bobl rydych chi'n cwrdd â nhw.

Mae yna chwe sesiwn hwyliog yn rhan o'r cwrs hwn, gan gynnwys ffilmiau byr, tystiolaethau ysbrydoledig, enghreifftiau go iawn gan bobl sy'n siarad am Iesu, a llyfr cwrs byr, hawdd ei ddilyn. Mae'r adnodd ar gael ar gyfrwng DVD neu USB ar gyfer eich grwpiau cartref – mae'r llyfr yn Gymraeg, a'r ffilmiau i gyd wedi eu is-deitlo yn Gymraeg (ond Saesneg yw iaith lafar wrteiddiol y ffilmiau).

**Beth alla i ei wneud i rannu fy ffydd?**


Gallwch chi ddangos y ffilm fer sy'n gyflwyniad i'r cwrs i'ch eglwys ar ddydd Sul, neu trwy'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol eich eglwys, i annog pawb yn eich eglwys i fynd ar y daith arbennig o dystio i Iesu. Yna defnyddiwch y cwrs ffilmiau mewn grwpiau bach yn ystod yr wythnos, gan wylio'r fideo, ei drafod, ei gymhwyso i'ch sefyllfa, a gweddïo gyda'n gilydd yn gofyn i Dduw eich helpu chi i wneud Iesu'n hysbys. Y nod yw arfogi Cristnogion i wneud y mwyaf o bob cyfle i helpu ffrindiau, cydweithwyr ac aelodau o'r teulu i ystyried Iesu drostynt eu hunain ac i ddod yn ddilynwyr iddo. Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd i siarad am Iesu a rhannu eu ffydd. Bydd y cwrs hwn yn eich ysbrydoli i rannu'ch ffydd.

# ROOTS yn Gymraeg

**Mae ROOTS for Churches yn cynnwys dau gylchgrawn Saesneg a gwefan sy'n llawn o syniadau dysgu ac addoli ar gyfer bywyd yr eglwys. Mae modd tanysgrifio i dderbyn y cylchgrynau yn ddeu-fisol drwy'r post.**

I danysgrifio ewch i wefan **www.rootsontheweb.com**

**Erbyn hyn y mae elfennau o ddeunydd addoli a dysgu Roots for Churches ar gael yn Gymraeg**, a hynny i'w lawrlwytho am ddim o'r wefan i bawb sy'n tanysgrifio i'r cylchgronnau. Ar gyfer bob Sul o'r flwyddyn y mae tua 12 o weddïau ar gyfer addoliad pob oed ac addoliad adran yr oedolion ar y wefan, ynghyd â thaflen waith a thaflen liwio wythnosol ar gyfer y plant ar gael yn Gymraeg.




Mae sampler ar gael sef deunydd ar gyfer un Sul arbennig ym Medi (er y gellir ei ddefnyddio ar unrhyw Sul wrth gwrs) a copi o'r deunydd Cymraeg ar gyfer yr wythnos oddi ar y wefan. Dyma gyfle felly i arbrofi gyda'r deunydd ar gyfer oedfa arbennig.

Mae cyfle i danysgrifio i ROOTS trwy dderbyn copïau yn y post bob deufis. O danysgrifio, fe fydd y deunydd Cymraeg hwn ar gael yn wythnosol ar eich cyfer.

# Ffurflen Archebu

# Adnoddau Cenhadol Nadolig

## O llawenhawn! *Daeth Crist i'n plith*

Ar gyfer Nadolig eleni mae Cyngor Ysgolion Sul wedi paratoi cyfres newydd o adnoddau a fydd yn galluogi Eglwysi i gyflwyno neges a llawenydd y Nadolig o fewn ein cymunedau mewn ffordd drawiadol ac effeithiol.

Yn ganolbwynt i'r cyfan mae **cylchgrawn lliwgar 16 tudalen** sy'n cynnwys darlleniadau Beiblaidd, erthygl yn sôn am 'Beth yw'r Nadolig?' gan Arfon Jones, posau, croesair, rysáit Cacen Nadolig, cerddi, gweddïau, tudalen i'r plant a nifer o erthyglau diddorol.

Mae modd prynu copïau o'r cylchgrawn am 99c yr un, neu becynnau o 100 gopi am £50 (50c yr un). **Mae modd hefyd archebu copïau gyda thudalen gefn a all gynnwys manylion lleol eich eglwys/ amseroedd oedfaon Nadolig** ayyb... Os am archebu rhai penodol i'ch eglwys/ardal rhaid archebu isafswm o 250 copi am £250, neu 500 copi am £350 neu 1,000 copi am £500. Ni ellir argraffu niferoedd gwahanol i'r rhain.

Yn ogystal hefyd mae **baner liwgar** ar gyfer ei harddangos tu allan i'ch capel (2 fedr wrth 0.5 medr) ar gael am £25 yr un. Neu **faner tu mewn** (*roller banner*) am £50 yr un. Hefyd mae **taflenni carolau** ar gael am £30 (pecyn o 100), **balŵns lliwgar** am £2 (pecyn o 10) a **matiau diod** am £2 (pecyn o 10). Mae **cardiau Nadolig** hefyd ar gael yn yr un cynllun os am eu defnyddio i'w hanfon ar ran yr eglwys.


| | Pris | **Nifer** | **Cost** |
|---|---|---|---|
| **CYLCHGRAWN CYFFREDINOL** | | | |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – copi unigol | £0.99 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 2 i 99 copi | £0.75 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 100 copi neu fwy | £0.50 | ................ | ................ |
| **CYLCHGRAWN WEDI EI ADDASU AT DDIBEN LLEOL** | | | |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 250 copi | £250 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 500 copi | £350 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 1,000 copi | £500 | ................ | ................ |
| **BANERI** | | | |
| Baner ar gyfer tu allan (2m X 0.5m) | £25 | ................ | ................ |
| *Roller banner* ar gyfer tu mewn (0.8m X 2m) | £50 | ................ | ................ |
| **ADNODDAU ERAILL** | | | |
| Balŵns (Oren – 'O Llawenhawn!') – pecyn o 10 | £2 | ................ | ................ |
| Matiau Diod ('O Llawenhawn!') – pecyn o 10 | £2 | ................ | ................ |
| Taflenni Carolau – pecyn o 100 | £30 | ................ | ................ |
| Cardiau Nadolig ('O Llawenhawn!') – pecyn o 8 | £2 | ................ | ................ |
| Cardiau Nadolig ('O Llawenhawn!') – pecyn o 100 | £15 | ................ | ................ |
| | | **Cyfanswm Cost** | ................ |

Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'. **Ffôn** ................................................................

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ................................................................................................

................................................................................ **Côd Post** ................................................


**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH




Y Cylchgrawn 16 tudalen




Matiau diod





Cardiau Nadolig




Balŵns




Taflen garolau




Baner tu mewn

## Hefyd yn newydd ar gyfer 2019

# Cyfres o ffilmiau O llawenhawn!

Paratowyd mewn cydweithrediad gyda Eglwys Bresbyteraidd Cymru:




Ffilm fer am **Arwyddocad y Nadolig** gan Arfon Jones
Ffilm **Stori'r Nadolig** allan o beibl.net
Ffilm fer yn cynnwys rhai **gweddiau a cherddi'r Nadolig**

Mwy o wybodaeth ar www.ysgolsul.com

# Ffilm a llyfr 'Caru Ti' – Duw

Hefyd yn newydd ar gyfer Nadolig 2019 mae ffilm a llyfr *'Caru Ti' – Duw* sy'n addas i blant oed cynradd.

Mae'r ffilm ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan www.biblesociety.org.uk ac mae modd archebu'r llyfrau yn uniongyrchol gan CYS. Mwy o wybodaeth ar www.ysgolsul.com






Pris y llyfr yw £2 neu
2–10 copi yn £1 yr un
11–99 copi yn 60c yr un
100+ copi yn 50c yr un


# CARDIAU NADOLIG CRISTNOGOL CYMRAEG

Mae 7 cynllun Beiblaidd ar gael gennym. Cardiau maint mawr. 8 mewn pecyn.













**Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwych felly i gefnogi Cyngor Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi yn talu £1.50 y pecyn amdanynt ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu!**

**I archebu, cysyllter â (gan nodi nifer y pecynnau rydych am eu derbyn):**

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

01766 819120 aled@ysgolsul.com
Rhoir amrywiaeth o gynlluniau ymhob bocs – tra pery stoc.

Amgaeaf siec o £.................. yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am ................ o becynnau am £1.50 yr un (+£2.50 cludiant).

Enw a chyfeiriad dosbarthu ..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................


Côd Post .......................................................................... Ffôn ..........................................................................

## Casgliad newydd o garolau yn y Gymraeg

**Gwerthfawr Drysor** E Wyn James (gol.)

Gwnaeth E Wyn James gymwynas fawr â ni drwy gasglu ynghyd dros 70 o garolau Cymraeg mewn un cyfrol hwylus ar gyfer gwasanaethau carolau adeg y Nadolig. Dyma gyfrol hylaw a fydd o ddefnydd mawr ar gyfer canu mawl adeg y Nadolig. Mae llawer hen ffefryn ymhlith y 70 eitem, ond mae yma hefyd rai na fu mewn casgliad erioed o'r blaen; ac un o nodweddion y detholiad yw bod tinc y garol blygain draddodiadol yn rhedeg yn gryf drwyddo.


Pris: £4.99 neu £2 yr un trwy brynu 10 copi neu fwy.



# Adnoddau i rannu stori'r Nadolig i blant

## Dau Gomic/Llyfr Nadolig

Mae dau gomic Beiblaidd Nadoligaidd ar gael i'w cyflwyno i blant oed cynradd. Maent ar gael am y pris arbennig o 60c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £25 neu 100 am £40. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.




**Seren Bethlehem** (*I Blant 5 i 8 oed*)
Comic newydd lliwgar 16 tudalen ar gyfer 2017 yn cyflwyno stori'r Nadolig ynghyd â gweithgareddau lliwio a phosau niferus ar y thema.

**Arwyr Ancora: Comic Beiblaidd y Nadolig** (*I Blant 7 i 11 oed*)
Mae'r Comic 20 tudalen hwn hefyd yn cyflwyno plant i app Beiblaidd *Guardians of Ancora* sydd ar gael yn Gymraeg i'r iPad a theclynnau tebyg.









**Fy Llyfr Nadolig Cyntaf** gan **Anni Llŷn** (*I Blant 5 i 7 oed*)
Yn ogystal mae llyfr lliwgar yn adrodd hanes stori'r Nadolig ar ffurf odl wedi ei greu yn arbennig gan Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru 2015-2017. Mae'n addas ar gyfer plant 4 i 8 oed. Maent ar gael am £2.99 yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £75 neu 100 am £100. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.

# Llyfrau rhodd ar gyfer y Nadolig








**Llyfr Lliwio fy Nadolig Cyntaf** £1.99
Llyfr lliwio Nadoligaidd i blant bach sy'n cynnwys y stori am eni'r Iesu ym Methlehem.




**Llyfr Gweithgaredd fy Nadolig Cyntaf** £2.99
Llyfr posau a gweithgareddau Nadoligaidd i blant bach sy'n cynnwys y stori am eni'r Iesu.

**Chwilota drwy Stori'r Nadolig** £5.99
Cyfrol lliwgar yn arddull Ble mae Wali? yn adrodd hanes y Nadolig, gyda channoedd o bethau i chwilio amdanynt ar dudalennau cerdyn caled sy'n agor allan. Addasiad Cymraeg o Look and Find Bible Stories Christmas gan Mair Jones Parry.








**Chwilio a Chanfod: Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr bwrdd lliwgar yn adrodd hanes y Nadolig ar gyfer plant 3-6 oed.

**Fy Llyfr Cyntaf: Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr bwrdd gyda handlen yn adrodd hanes y Nadolig ar gyfer plant 3-6 oed. Addasiad Cymraeg o The Story of Christmas gan Mair Jones Parry.

**Rhyfeddod y Nadolig** £2.99
Llyfr stori'r Nadolig i blant 5-8 oed gan Bethan James, wedi'i ddarlunio mewn lliw gan Paula Doherty. Addasiad Cymraeg Mair Jones Parry.




**Stori'r Nadolig Cyntaf** £3.99
Llyfr bwrdd lliwgar ar gyfer plant 3-5 oed yn adrodd hanes y Nadolig cyntaf.

**Telerau arbennig ar gael drwy gysylltu gyda'r Cyngor Ysgolion Sul**

# Ffurflen Archebu beibl.net

Erbyn hyn mae tri Beibl wedi eu cyhoeddi fel rhan o brosiect beibl.net. Mae fersiwn llawn o'r Beibl ar gael, fersiwn print bras, yn ogystal â Beibl lliw i blant. 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net. Rydym yn hapus i gynnig telerau arbennig ar niferoedd – gweler isod:




**PRISIAU SIOP**

beibl.net cyffredin **£14.99** yr un
beibl.net 365 o storïau o'r Beibl **£14.99** yr un
beibl.net print bras **£24.99** yr un

**Prisiau arbennig:**

*beibl.net a beibl.net 365*
2–5 copi: **£14** yr un
6–24 copi: **£12** yr un
25+ copi: **£10.50** yr un

*beibl.net print bras*
2 neu fwy **£20** yr un

Gellir cyfuno niferoedd o'r tri beibl oddi mewn i'r archeb er mwyn sicrhau y prisiau gostyngol.

Yn ystod 2019 daeth gwaith Gobaith i Gymru i ben a bellach mae gofal gwefannau beibl.net a gobaith.cymru o dan nawdd y Cyngor Ysgolion Sul. Rydym hefyd yn trefnu oedfa i ddiolch am y gwaith pwysig a gyflawnwyd gan yr elusen dros 20 mlynedd.

Y mae'n bleser gan **Cyngor Ysgolion Sul Cymru** eich gwahodd i

## Oedfa o Ddiolchgarwch am waith Gobaith i Gymru a beibl.net

Ac i glywed am gynlluniau cyffrous ar gyfer y Beibl yng Nghymru i'r dyfodol

**DYDD SADWRN, 29 CHWEFROR 2020 AM 2 Y.P.**
yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin, SA31 1NH

Byddwn yn dathlu bod gwefan beibl.net bellach yn 18 oed ac yn lansio dwy wefan Gristnogol newydd.

Pregethir gan y **Parchg. Ddr. Geraint Tudur**.


Cyflwynir Tysteb i **Arfon Jones a Gwenda Jenkins**, Swyddogion Gobaith i Gymru.

**Croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer yr achlysur pwysig hwn ac i ddod ag eraill gyda chi.**

Fe wneir casgliad tuag at waith datblygu y Beibl yng Nghymru ar y dydd.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Aled Davies (aled@ysgolsu.com)

# CANU CLOD!

**CASGLIAD O DROS 400 O EMYNAU A CHANEUON CRISTNOGOL I BLANT AC IEUENCTID WEDI EU CYHOEDDI MEWN DWY GYFROL.**




Cyfrol 1 a 2 ar gael **nawr!**

**Ceir rhai o'n ffefrynnau traddodiadol ond yn bennaf dyma gasgliad o ganeuon Cristnogol cyfoes a gomisiynwyd ar gyfer y gyfrol.**

Cerddoriaeth llawn **hen nodiant** gyda **cordiau gitâr**

Pris y gyfrol **£26.99** *neu* cyfle unigryw i gael **UN set am £40** yn cynnwys cludiant!

gobaith.cymru

ADNODDAU ADDOLI

Cyngor Ysgolion Sul

**Cofiwch hefyd am wefan geiriau cerddoriaeth Gristnogol gobaith.cymru**



**Gwefan sy'n llawn geiriau emynau traddodiadol, cyfieithiadau caneuon Cristnogol cyfoes ac emynau gwreiddiol Cymraeg.**

Mae modd lawrlwytho yr holl emynau o'r wefan am ddim, ond bydd angen caniatad i daflunio neu argraffu cynnyrch sydd o dan hawlfraint.

Datblygwyd y wefan hon dros y blynyddoedd gan gasglu geiriau emynau a chaneuon Cristnogol ynghyd mewn un man taclus. Bydd Cyngor Ysgolion Sul yn anelu i barhau i ddatblygu'r wefan i'r dyfodol, ac yn falch o dderbyn unrhyw gynnyrch gwreiddiol neu cyfieithiadau i'w hystyried.

# Llan Llanast

**Messy Church yn Gymraeg!**

Mae dau adnodd Cymraeg yn y gyfres Llan Llanast bellach ar gael yn Gymraeg. Llan Llanast yw'r enw Cymraeg awdurdodedig ar gyfer cynnal gweithgaredd Messy Church.

**Cychwyn eich Llan Llanast** Pris £4.99

**Llan Llanast** Pris £7.99
Cyfeirlyfr yn cynnwys arweiniad a sesiynau ymarferol.





LLAN Llanast


**Adnoddau Messy Church ar gael o www.brf.org.uk**

# Detholiad o'n Beiblau i Blant


Trwy gysylltu â Chyngor Ysgolion Sul mae'n bosib cael gostyngiadau arbennig drwy brynu cyflenwad i'w cyflwyno i blant.




**Beibl Lliw Stori Duw**
£12.99
Mae'r beibl hwn i blant 7-11 oed yn cynnwys 365 o straeon, un ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn.





**Beibl Bach Stori Duw**
£12.99
Beibl lliwgar i blant 5-8 oed yn ein harwain trwy'r Beibl, gan gyflwyno'r stori fel un stori, gan esbonio sut mae'r cyfan yn rhan o stori fawr Duw.





**Beibl Bach i Blant** £13.99
Cyfrol ddarluniadol hardd mewn lliw yn cynnwys 64 o storïau mwyaf poblogaidd o'r Beibl, wedi eu haddasu ar gyfer plant ifanc.





**Beibl Newydd y Plant**
£12.99
Beibl lliw ar gyfer plant 5-8 oed. Dyma stori fawr y Beibl o'r Creu i'r Cadw, wedi ei hadrodd yn arbennig ar gyfer plant.





**Beibl Newydd y Storïwr**
£12.99
Casgliad o straeon o'r Beibl i'w darllen yn uchel i blant. Hwn yw'r Beibl ar gyfer cynllun Agor y Llyfr.




**Beibl y Plant Lleiaf**
£12.99
Addasiad Cymraeg o gasgliad o ugain stori Feiblaidd gyda thestun syml wedi eu darlunio'n lliwgar, yn cynnwys deg stori yr un o'r ddau Destament; i blant 3-6 oed.




**Y Beibl Graffig**
£16.95
Addasiad Cymraeg deniadol o gyfrol ddarluniadol lawn yn adrodd holl ddrama a chyffro, llawenydd a loes hoff hanesion y Beibl; i blant o bob oed.





**Beibl Blociau**
£12.99
Beibl lliwgar i blant 9-14 oed yn arddull Minecraft.





**Fy Meibl Bach**
£5.99
Llyfr bwrdd gydag handlen hwylus yn cynnwys 12 stori o'r Beibl ar gyfer y plant lleiaf.




**Beibl Cyntaf y Plant Lleiaf**
£9.99
Beibl bwrdd i'r plant lleiaf.




**Fy Meibl Bach I**
£3.99
Casgliad o brif storïau'r Beibl wedi'u hadrodd yn syml a'u darlunio'n lliwgar ar gyfer plant bach.




**Y Beibl Fesul Stori**
£9.99
Beibl lliw newydd ar gyfer ieuenctid 11-18 oed, mewn arddull nofel / y stori gyflawn.

# Cynllun Cronfa Illtud

## CYNLLUN i gefnogi eich **ysgol** leol... cyfle i eglwysi lleol gynorthwyo eu hysgolion lleol

Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl cyflwyno llyfrau darllen at wasanaeth eich ysgol gynradd leol.

Mae'r casgliad yn cynnwys 30 o'r llyfrau diweddaraf, lliwgar ar gyfer rhai rhwng 5-11 oed.

**CYFLE I EGLWYSI GYFLWYNO RHODD O LYFRGELL GRISTNOGOL GYMRAEG I YSGOL LEOL.**

## CYNLLUN i roi llyfrgell adnoddau defosiynol yn eich **eglwys** leol...


Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl prynnu cyflenwad o 20 llyfr gweddi/oedfaon/myfyrdodau gwahanol ar gyfer galluogi pobl o fewn y gynulleidfa i gymryd yr awenau ac arwain oedfa ar y Sul.

Mae'r casgliad yn cynnwys 20 o lyfrau gan Cyhoeddiadau'r Gair a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd y llyfrau yn cael eu dewis genym ni.

**CYFLE I EGLWYSI OSOD LLYFRGELL O LYFRAU DEFOSIYNOL YN Y CAPEL.**

**Pris arferol y llyfrau : £150 y set. Pris arbennig gan gynnwys cludiant : £60 y set.**
**Cysylltwch gyda Aled Davies i gymryd mantais**
**o'r cynnig yma: aled@ysgolsul.com 01766 819120**

## Cyfres o bosteri




Cyfres o 20 poster Cristnogol lliwgar sy'n addas i'w arddangos mewn eglwys, festri Ysgol Sul neu ystafell ddosbarth yn yr ysgol.

*Y gyfres yn cynnwys:*

- Llyfrgell o holl lyfrau'r Beibl
- Map lliwgar o Israel yng nghyfnod y Beibl
- Testun Gweddi'r Arglwydd, Y Deg Gorchymun a Salm 23
- Posteri addas ar gyfer y Nadolig a'r Pasg

## Y 4 Pwynt





Mae Y 4 Pwynt yn dract Cristnogol sydd ar gael mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys erbyn hyn y Gymraeg!

**Mae'r tract yn defnyddio pedwar symbol – calon (mae Duw'n fy ngharu) croes X (Rydw i wedi pechu), croes Crist (Bu Iesu farw drosof) a marc cwestiwn (Rhaid i mi benderfynu byw er mwyn Duw).**

Ar y wefan yn ogystal (www.the4points.com) mae llawer iawn o adnoddau di-iaith gan gynnwys breichledau, capiau, sticeri, crysau-t a hwdis. Dyma adnodd hynod effeithiol i genhadu ymysg plant a ieuenctid.

Ar y tract o dan y symbolau mae'r esboniadau isod:
MAE DUW'N FY NGHARU
RYDW I WEDI PECHU
BU IESU FARW DROSOF
RHAID I MI BENDERFYNU BYW ER MWYN DUW

**www.the4points.com**

# Ffurflen Archebu

# Llyfrau ac Adnoddau Ysgol Sul


Y prisiau arbennig (mewn cromfachau) yn berthnasol i eglwysi sy'n pertyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru.


| | Pris Siop | Pris Arbennig | | **Nifer** | **Cost** |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWERSLYFRAU** | | | | | |
| Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 5 | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Gwerslyfr Stori Duw i blant 6-11 oed | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Gwerslyfr Stori Duw i Ieuenctid | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **CREFFT** | | | | | |
| Llyfr Crefft Stori Duw i blant bach | £18.99 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Llyfr Crefft Stori Duw i blant | £18.99 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **CD-ROM** | | | | | |
| Cyfres Stori Duw | £19.99 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **LLYFRAU GWEITHGAREDD** | | | | | |
| Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf | £11.98 | (£6.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Beibl Gweithgaredd y Plant | £11.98 | (£6.00) | ❑ | ................ | ................ |
| gan gynnwys Beibl Gweithgaredd yr Eglwys Fore | | | | | |
| **BEIBLAU LLIW** | | | | | |
| Beibl Lliw Stori Duw | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Beibl Bach Stori Duw | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **DEFOSIWN** | | | | | |
| Oedfaon Stori Duw | £9.99 | (£7.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **FFEITHIOL** | | | | | |
| Taith Fawr Stori Duw | £6.99 | (£5.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **LLIWIO** | | | | | |
| Llyfr lliwio Stori Duw i blant | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **ADNODDAU GWELEDOL / CLYWEDOL** | | | | | |
| Cyfres o 4 DVD Beibl Lliw Stori Duw | £23.96 | (£20.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Cyfres o 2 DVD Beibl Bach i Blant | £19.98 | (£15.00) | ❑ | ................ | ................ |
| *Y ffilmiau uchod ar gael i'w lawrlwytho o www.ysgolsul.com fel ffilmiau unigol am 49c yr un.* | | | | | |
| Beibl Bach i Blant - Powerpoint | £13.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| Llinell Amser y Beibl | £11.99 | (£10.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **ADNODDAU DIGIDOL** | | | | | |
| App Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf | Ar gael o'r *Apple App Store* ar gyfer teclynau fel iPad | | | | |
| App Beibl Gweithgaredd y Plant | Ar gael o'r *Apple App Store* ar gyfer teclynau fel iPad | | | | |
| **CYFEIRLYFRAU** | | | | | |
| Set o 6: Llawlyfr y Beibl, Llawlyfr y Beibl i Blant Antur Trwy'r Beibl, Beth yw'r Beibl, Dysgu am y Beibl Darganfod y Beibl | £64.94 | (£25.00) | ❑ | ................ | ................ |
| **GWERSLYFR NEWYDD I OEDOLION** | | | | | |
| Geiriau Ffydd 3 gan John Treharne | £9.99 | | ❑ | ................ | ................ |
| | | | | **Cyfanswm Cost** | ................ |








Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'. **Ffôn** ..............................................................................

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..............................................................................

.............................................................................. **Côd Post** ..............................................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

# Beth am ymuno a'n rhestr ebost ni?

Rydym yn anelu i anfon bwletin allan yn fisol yn rhannu am waith diweddaraf y Cyngor Ysgolion Sul ac adnoddau diweddaraf Cyhoeddiadau'r Gair.

**Ebostiwch aled@ysgolsul.com er mwyn cael eich ychwanegu at ein basdata.**




## Catlog Newydd

### 64 tudalen lliw llawn

Ar gael i lawrlwytho am ddim o www.ysgolsul.com neu gallwch archebu copi caled trwy anfon siec o £2 i 'Cyngor Ysgolion Sul' i'r cyfeiriad a welir uchod. Bydd modd codi copi am ddim wrth i ni deithio gyda arddangosfeydd gwahanol.

# Fedrwch chi gefnogi gwaith y Cyngor Ysgolion Sul?

Mae Cyngor Ysgolion Sul yn elusen gofrestredig, rhif 525766, sy'n gweithio'n agos gyda'i bum prif noddwr, sef yr enwadau Cymreig yng Nghymru, er mwyn cyflwyno'r newyddion Da am Iesu, yn bennaf i blant ac ieuenctid, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Mae llawer iawn o'r gwaith craidd mae'r Cyngor yn ei wneud yn cael ei gynnal a'i noddi gan yr enwadau. Fodd bynnag mae llawer iawn o'r gwaith cenhadol ac ymestynol rydym yn ei gyflawni yn ddibynnol i raddau helaeth ar roddion gan garedigion ac unigolion sy'n cyfrannu at y gwaith. Wrth i ni ddatblygu strategaeth genhadol newydd mae rhoddion yn fwyfwy allweddol i wneud gwaith newydd a chyfoes, gan gofleidio technoleg newydd i wneud hynny. Dros y blynyddoedd nesaf rydym yn bwriadu datblygu gwefannau newydd lle bydd llawer iawn o adnoddau yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. I gyflawni hynny mae angen eich rhoddion arnom.

**Mae'r rhai sy'n cyfrannu eisoes at y gwaith yn cynnwys:**

- Unigolion sy'n cyfrannu'n rheolaidd neu yn achlysurol at y gwaith
- Eglwysi sy'n gyrru rhoddion trwy ein hapêl blynyddol ar Sul Addysg.
- Cymanfaoedd, Cyfundebau ac Henaduriaethau sy'n gyrru rhoddion achlusurol
- Cynghorau eglwysi, grwpiau Cytûn a noddwyr Cristnogol a fydd yn gyrru rhoddion at broject arbennig
- Casgliadau yn dilyn oedfaon neu ddigwyddiadau arbennig.

**Tybed a ydych chi wedi ystyried, ac mewn modd i gyfrannu at barhad a datblygiad ein gwaith?**

Mae modd cyfrannu mewn mwy nag un ffordd.

Gellir **gyrru siec** yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul at Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Gellir sefydlu **archeb banc** rheolaidd. I wneud hynny eto, dylid cysylltu gydag Aled am fanylion sefydlu a threfnu archeb banc.

Gellir **cyfrannu yn uniongyrchol ar y we** – manylion llawn am hyn ar www.ysgolsul.com.

Cofiwch hefyd bod modd cynnwys Cyngor Ysgolion Sul mewn **ewyllys**, ac os ydych am wneud hynny, i nodi 'Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru, elusen gofrestredig 525766' fel y derbynnydd.

Rydym hefyd wedi bod yn ffodus ar adegau arbennig i **dderbyn rhoddion gan gapeli ac eglwysi mewn cyfnod pan maent yn dwyn yr achos lleol i ben**. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae gan yr aelodau lleol yr hawl i wario'r arian rhydd yn y cyfrif banc ac mae cyfrannu at waith Cyngor Ysgolion Sul yn un ffordd o alluogi tystiolaeth Gristnogol Gymraeg i barhau. Gwerthfawrogir bob rhodd gan eglwysi yn y modd hwn.

**Gwerthfawrogir pob rhodd, sy'n ein galluogi ni i ymestyn allan yn genhadol i Gymry Cymraeg gan gyflwyno'r newyddion Da am Iesu Grist.**

# Ydach chi wedi ymweld â gwefannau Cyngor Ysgolion Sul?




Erbyn hyn mae gan Cyngor Ysgolion Sul 5 gwefan y mae'n gyfrifol amdanynt.

## www.ysgolsul.com

Gwefan swyddogol y Cyngor, sy'n cynnwys gwybodaeth a newyddion am ein gwaith yn ogystal â siop ar lein a siop ddigidol i brynu llyfrau ac adnoddau digidol i'w lawr lwytho.

## www.cristnogaeth.cymru

Gwefan gyffredinol sy'n ffynhonnell gwybodaeth am bopeth ac unrhyw beth yn ymwneud â Christnogaeth yng Nghymru..

## www.gair.cymru

Gwefan sy'n cynnwys deunydd Cristnogol Cymraeg i'w lawr lwytho yn rhad ac am ddim, gan gynnwys gwersi ysgol Sul ar gyfer pob oed, gwasanaethau cyflawn ar gyfer cynnal oedfaon ar y Sul, gweddïau a myfyrdodau, ffilmiau ar gyfer plant ac oedolion, cyflwyniadau PowerPoint i'w defnyddio mewn gwersi ac oedfaon, deunydd defosiwn dyddiol ar gyfer bob dydd o'r flwyddyn, gwasanaethau ar gyfer ysgolion a sgyrsiau plant ar gyfer oedfa neu wasanaeth ysgol.

## www.beibl.net

Gwefan sy'n cynnwys testun y Beibl cyfoes beibl.net ynghyd â llawer o adnoddau cysylltiol eraill.

## www.gobaith.cymru

Gwefan sy'n cynnwys dros fil o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes ar ffurf geiriau yn unig ac fel ffeiliau Powerpoint y mae modd eu lawr lwytho yn rhad ac am ddim.

## Beth am ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

/ysgolsul
/beiblnet
/beiblbyw

@ysgolsul
@beibl_net

Cyngor
Ysgolion Sul